# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) yng Nghymru


# Y Cyfnod Sylfaen


Gan Trisha Maynard, Alex Morgan a Jane Waters, Prifysgol Abertawe;
Jane Williams, Prifysgol Cymru, Casnewydd

Caiff y broses o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, fframwaith dysgu ôl-ddatganoli newydd i blant rhwng tair a saith oed, ei chwblhau yn 2011. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio dull ymarferol o ddysgu drwy brofiad sy'n seiliedig ar chwarae mewn amgylcheddau dan do ac awyr agored ysgogol. Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen.

Ymddengys bod 11 o brosiectau ymchwil y TLRP yn arbennig o berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, ac mae tair thema fras yn dod i'r amlwg o'r rhain: Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen, Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ac Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion




## Tystiolaeth y TLRP

ACTS (Ysgogi Sgiliau Meddwl Plant) II: Ystafelloedd Dosbarth Meddwl yn Gynaliadwy www.tlrp.org/proj/phase11/phase2g.html

Ymagwedd sy'n Seiliedig ar Werthoedd tuag at Addysg Athrawon www.tlrp.org/proj/asmith.html

Ymgynghori â Dysgwyr ynghylch Addysgu a Dysgu www.tlrp.org/proj/phase1/phase1dsept.html

Ymgynghori â Dysgwyr ar Asesu eu Dysgu (CPAL) www.tlrp.org/proj/leitch.html

Addysg cyn ysgol a chynradd effeithiol (EPPE 3–11) www.tlrp.org/proj/phase111/AssocEPPE.htm

Prosiect Dysgu Cydradd: Hwyluso ymgysylltiad athrawon ag arfer mwy cynhwysol www.tlrp.org/proj/smbdavies.html

Cyfnewid gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol a gweddnewid mewn addysg gynradd www.tlrp.org/proj/phase11/phase2e.html

Rhyngweithio: Chwarae, dysgu a TGCh mewn addysg cyn ysgol www.tlrp.org/proj/phase111/Scot_extc.html

Dysgu Sut i Ddysgu, mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html

Rôl Ymwybyddiaeth wrth Addysgu a Dysgu Llythrennedd a Rhifedd yn CA2 www.tlrp.org/proj/phase11/phase2h.html

Tuag at Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth mewn Addysg Gwyddoniaeth www.tlrp.org/proj/phase1/phase1bsept.html

Mae'r prosiectau uchod wedi'u cyhoeddi yn Saesneg ar wefan TLRP.

Rh Y A C Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru
W E R N Welsh Education Research Network
T·L·R·P TEACHING & LEARNING RESEARCH PROGRAMME
E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

| Ymarferydd y Cyfnod Sylfaen | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: 'Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol' |
|---|---|---|
| Arfer myfyriol | Mae newid yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd ymarferwyr yn myfyrio ar eu harfer eu hunain ac yn ymwneud â'r athroniaeth sy'n sail i ddulliau newydd o ddysgu. | Mae angen i hyfforddiant fod yn seiliedig ar 'gredoau a dealltwriaeth a rennir'. Mae systemau sy'n hyrwyddo arfer 'sy'n seiliedig ar ymholi' yn yr ystafell ddosbarth yn hanfodol i effeithiolrwydd ysgolion. Mae angen ymdeimlad o 'broffesiynoldeb ar y cyd' sy'n gwerthfawrogi rôl pob ymarferydd er mwyn creu rhwydwaith dynamig o arfer. |
| Statws proffesiynol | Mae'n fwy tebygol y caiff dulliau newydd eu cyflwyno'n llwyddiannus pan fydd ymarferwyr yn teimlo y cân nhw eu gwerthfawrogi a phan fyddan nhw'n teimlo perchenogaeth dros eu harfer. | |
| Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol | Mae hyfforddiant o ansawdd uchel, cymwysterau lefel uchel a datblygiad proffesiynol cynyddol yn arwain at y ddarpariaeth orau a deilliannau gwybyddol i blant. | |

| Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: 'Gwelliant ac Atebolrwydd' |
|---|---|---|
| Rhyngweithio rhwng oedolion a phlant | Mae angen i ymarferwyr fod yn fedrus wrth ddefnyddio amrywiaeth eang o strategaethau addysgeg. | Mae addysgu o ansawdd uchel a disgwyliadau uchel yn ganolog i effeithiolrwydd ysgolion.<br><br>Mae gallu ymarferwyr i ddewis a defnyddio strategaethau dysgu, addysgu ac asesu effeithiol a chynnwys plant yn y penderfyniadau a wneir am eu dysgu yn allweddol i wella ysgolion. |
| Asesu ar gyfer dysgu | Dylai asesu ategu dysgu a phenderfynu a gafwyd dysgu. Mae cysylltiad agos rhwng asesu ar gyfer dysgu a dysgu sut i ddysgu. | |
| Cyfranogiad plant | Mae amgylcheddau dysgu effeithiol yn cynnwys plant mewn penderfyniadau bob dydd am eu dysgu. | |
| TGCh a datblygu amgylcheddau dysgu effeithiol | Gellir gwella potensial TGCh i ategu dysgu plant drwy ryngweithio effeithiol rhwng oedolion a phlant. | |

| Agor gatiau'r ysgol/lleoliad: teuluoedd a chymunedau | Syniadau allweddol | Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (Gweithio gydag Eraill) |
|---|---|---|
| Effaith amgylchedd dysgu'r cartref | Mae gan amgylcheddau dysgu'r cartref arwyddocâd hirdymor i ddysgu plant. Mae'r hyn mae teuluoedd yn ei wneud yn bwysicach na phwy ydyn nhw. | Dylai fod cymorth ar bob lefel ar gyfer mentrau sy'n galluogi ymarferwyr i feithrin partneriaethau dilys a chynhwysol â rhieni a chymunedau. Dylid nodi a lledaenu 'arfer da' cyfredol. |
| Datblygu partneriaethau â theuluoedd a chymunedau | Dylai ysgolion annog y 'teulu' ehangach i gymryd rhan mewn addysg plant. Efallai bydd angen cymorth ar ymarferwyr i ystyried amrywiaeth yn gyfle yn hytrach na phroblem. | |